

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDYD YN NEUADD GYMUNEDOL,  
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 01.03.16**

**3.1 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd).

**3.2 PRESENNOL**

Cyng. Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Edward Williams, John Ellis Williams, Sion Ifor Williams, Catrin Edwards, Emrys Jones, Margretta Cartwright, Sian Edwards, John Ceri Evans, Eryl Jones-Williams.

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd

**3.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Nid oedd dim ar gael oherwydd absenoldeb y Cadeirydd.

**3.4 COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Chwefror 2il fel rhai cywir.

**3.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Item 2.9 (B) angen i'r frawddeg yn y mater yma ddarllen adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod ddim pwynt rhoi y camerau CCTV i fyny nes byddant wedi cael cyngor gan yr Heddlu.

**3.6 DATGAN DIDDORDEB**

Datganodd y Cyng. Emrys Jones ddiddordeb yng nghais cynllunio Parc Carafanau Sea Nymph, Islawffordd , Talybont ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.

**3.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Chwefror 1af 1-4 Partneriaeth mewn gofal, Caernarfon, 6-9 Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Ardudwy, 9ed gwrandawriad trwyddedu, Penrhyn, 10ed 9.30-12 (linc fidio) ymchwiliad adref o'r ysbyty, Dolgellau, 2-3 ymchwiliad CSSIW (linc fidio), 12ed cyfarfod rheilffyrdd, Trallwng, 22ain cyfarfod coffa trychineb fferi Penmaenpool, 23ain cyfarfod addysg a gofal, Penrhyn, 24ain 11-12 monitro staff Ysgol Ardudwy, 6.30-9.30 Un Llais Cymru, Dolgellau, 25ain adroddiad ynglyn gofal Ysbyty Alltwen, Caernarfon, 29ain trwyddedu, Dolgellau, 2-5 Grwp Mynediad Meirionnydd, Dolgellau.

Yn ystod mis Chwefror y newidiadau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sydd wedi cymeryd dipyn o'm amser ynghyd ar torriadau arfaethedig o £5 miliwn gan Gyngor Gwynedd. 'Rwyf yn bryderus ynglyn ar torriadau yn y gwasanaethau cymdeithasol, gofal priffyrdd, cefnogaeth twristiad ar effaith mae y torriadau yn cael ar yr ardal hon. Ynghyd ar torriadau mae arbedion effeithlonrwydd o miloedd on bunioedd. Mae dipyn o drafodaeth wedi bod ynglyn ar cau arfaethedig o Eglwys Llanenddwyn ac 'rwyf wedi cysylltu gyda'r Parc Beth Bailey ynglyn a cysylltu gyda'r cyhoedd a mae wedi anfon llythyr i'r Cyngor. 'Rwyf hefyd wedi cyfarfod a swyddogion o ganolfan twristiaeth Bermo sydd wedi cael gwybod bydd y ganolfan yn cau yn mis Medi a mae rhai o'r ardal hon yn gweithio yna a mae deiseb yn galw arni i gael ei chadw yn agored wedi bod yn mynd o amgylch a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr o Gyngor Gwynedd. Mae y Prif Weithredwr hefyd wedi ymweld a Cyngor Bermo i drafod pa wasanaethau all y Cyngor Tref gymeryd drosodd. Mae y cyfarfodydd Partneriaeth mewn gofal gyda'r GIG, gofalwyr preifat, grwpiau gwirfoddol a.y.y.b wedi ymestyn i gynnwys Ynys Mon ac 'rwyf yn barod wedi sylwi bod mwyafrif yr aelodau ddim ond yn pryderu am Ysbyty Bangor, yn gymaint mae yr ardal hon yn cael ei gwasanaethu gan Maelor, Wrexham, Glan Clwyd, Broadgreen a Gobowen a bydd yn frwydyr o hyn ymlaen. Y fendith yw bod ysbytai Alltwen a Dolgellau yn gwneud yn dda. Mae yr ymchwiliad adref o ysbyty yn mynd yn dda gyda'r Cynghorwyr i gyd yn cymeryd diddordeb ac yn gwneud gwellianau a fydd o help i'r cleifion. Mae wedi dod yn amlwg bod cleifion yn cael eu anfon adref heb becyn gofal wedi ei wneud. 'Roedd yr ymchwiliad CSSIW yn edrych ffordd mae Gwynedd yn delio gyda pobl ifanc ar henoed gyda problemau iechyd meddwl yn agoriad llygaid. Mae rhifau teithwyr ar y rheilffordd lleol i

fyny a mae miliynau wedi cael ei wario ar ddfrod strom a.y.y.b ar mae'r ardal hon wedi colli allan ar grantiau i ehangu meusydd parcio mewn gorsafoedd. Mae masnachfaint y rheilffordd i fyny am adnewyddiad yn 2018 a mae cyfarfod yn Nolgellau ar yr 8ed o Fawrth er mwyn rhoi barn defnyddwyr lein y Cambrian. Mae y tren 8.00 o gloch i'r gogledd o Bermo a ddim yn aros yn y pentrefi rhwng Bermo a Porthmadog yn cael ei ddwyn i fyny gan y Gweinidog Trafnidiaeth, Edwina Hart. Bydd gwasanaeth coffa 50 mlynedd i'r 15 a foddwyd yn Penmaenpool yn Gorffennaf 1966 pan suddodd y gwch fferi yn cymeryd lle yn Gorffennaf ac 'roeddw'n yn cynrychioli pwyllgor yr harbwr yn y cyfarfod. Gyda etholiadau y Cynulliad yn mis Mai mae rheolau llym ynglyn a cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru cyn yr etholiadau ac o ganlyniad mae dyddiadau pwyllgorau addysg a gofal wedi cael eu dod ymlaen. Mae prinder athrawon, meddygon a nyrsus yn cael ei amlygu. 'Rwyf yn dal i alw am gofrestru deublyg mewn cartrefi gofal er mwyn arbed cleifion dementia i deithio yn bell i gael gofal cartref nyrsio. Mae y cynllun Banguard yn ysbyty Alltwn yn mynd yn dda ac yn rhoi angen y cleifion yn gyntaf ac yn gofyn iddynt y math o ofal maen't eisiau cyn i becynau cael eu rhoi yn eu lle. Mae prinder gofalwyr cartref yn Meirionnydd ac os bydd torriadau yn y gwasanaethau cymdeithasol bydd y sefyllfa ddim ond yn gwaethygu. Nid wyf wedi gwneud adroddiad ar gyfarfod Un Llais Cymru fynychodd OG a finnau rhagofn bod OG wedi ei wneud yn barod. Mae rhaid trefnu cyd bwyllgor rhwng yr CCTV ar neuadd bentref ond mae yn anodd i gael yr Heddlu ar PSCO's i ddod ag mae rhaid iddynt fod yna.

### **3.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

#### **Dymchwel rhan o'r neuadd bresennol ac adeiladu 1 ty fforddiadwy a gosod tanc olew 1000 litr - The Old Womens Institute Hall, Talybont (NP5/58/572)**

Cefnogi y cais hwn ond bod gan yr Aelodau bryder ynglyn a uchder y ty i gymharau a tai o amgylch.

#### **Estyniad arfaethedig o'r parc carafanau presennol i leoli 23 carafan deithiol, creu lloriau caled, sylfeini ar gyfer cysgodlenni a manau parcio, adeiladu unedau cawodydd/toiledau a phwer solar cyfun ar gyfer pob carafan, darparu storfa biniau, creu mynediad a llwybrau cylchrediad mewnol ac adeiladu waliau cerrig sychio ar ffiniau gogledd ddwyreiniol a gogledd orllewinol y safle, creu man chwarae a gwaith helaeth i drin y dirwedd a phlannu coed - Parc Carafanau Sea Nymph, Islawffordd, Talybont (NP5/58/439D)**

Ddim sylwadau ar y cais uchod nes fydd yr Aelodau wedi ymweld ar safle.

#### **Newidiadau ac estyniad i ffermdy a ty allan/garej cysylltiol - Fferm Llwynwcws, Llanaber (NP/5/58/80A)**

Cefnogi y cais hwn.

#### **Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**

Defnydd o'r tir wedi'i ymylu mewn coch a'i farcio "1" ar y cynllun i storio carafanau symudol dros y gaeaf rhwng 1af Tachwedd a 28ain Chwefror ym mhob blwyddyn, y rhifau nid i fod yn fwy na 13 mewn cyfanswm ar unrhyw adeg a'r rhifau i'w storio ar y tir wedi'i ymylu mewn coch a'i farcio "2" ar y cynllun ddim i fod yn fwy na 2 mewn cyfanswm ar unrhyw adeg - Tir yn Dalar, Talybont (NP5/58/LU285A) - caniatáu

Defnydd o'r tir o fewn yr ardal wedi'i ymylu mewn gwyrdd ar y cynllun i osod pedair carafan statig, y carafanau i'w meddiannu rhwng 1af Mawrth a 31ain Hydref ym mhob blwyddyn. Defnydd o'r siale wedi'i leoli yn y lleoliad a ddangosir mewn glas ar y cynllun at bwrpas llety gwyliau rhwng 1af Mawrth a 31ain Hydref ym mhob blwyddyn - Tir yn Dalar, Talybont (NP5/58/LU285B) - caniatáu

### **3.9 MATERION YN CODI**

#### **A Cynllun Busnes**

Adroddwyd bod £22,928.23 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

#### **B Camerâu CCTV**

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod yn aros i gael dyddiad gan yr Heddlu cyn cynnal cyfarfod gyda aelodau pwyllgor y neuadd bentref.

### **C Neuadd Bentref**

Adroddodd y Clerc bod y Cadeirydd wedi gadael anfoneb gan Mr. Gary Martayn am y gwaith o drwsio y broblem ger y drws cefn.

### **D Gwefan y Cyngor**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael sgwrs gyda Mr. John Morris o Bermo yn gofyn iddo a fyddai yn fodlon cymeryd y gwaith drosodd o edrych ar ol y wefan uchod. Datganodd Mr. Morris ei fod eisiau ymddeol ag felly nid oedd yn barod i ymgymeryd ar gwaith hwn ond cwbl fydd rhaid i'r Cyngor ei wneud yw cael y cyfrinair gan ddefnyddwr blaenorol y wefan hon. Cytunodd yr Is-Gadeirydd wneud ymholiadau i gael y cyfrinair gwreiddiol.

### **E Eglwys Llanenddwyn**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon llythyr a oedd wedi ei dderbyn gan y Parch Beth Bailey i bob Aelod er gwybodaeth ac adroddodd y Cyng. Margretta Cartwright ei bod wedi derbyn llythyr mwy diweddar gan y Parch Beth Bailey ac fe gytunwyd bod y Clerc yn gwneud copi o'r llythyr yma hefyd a'i anfon i bob Aelod. Cafwyd wybod bod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal ar yr 17eg o'r mis hwn am 7.00 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys i drafod y safle uchod.

### **F Ethol Cynghorydd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael clywed gan y Swyddog Etholwyr yn Gaernarfon bod 10 enw wedi eu derbyn ganddynt yn gofyn am etholiad ar y dyddiad cau sef y 5ed o Chwefror ag felly ei bod wedi gosod hysbyseb yn y ddau hysbysfwrdd yn dynodi hyn a bod unrhyw enw yn datgan diddordeb yn gorfod cael ei dderbyn yn y swyddfa etholaeth yn Gaernarfon erbyn y 19eg o Chwefror. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn copi o Ddatganiad am y Personau a Enwebwyd a bod dau wedi rhoi eu henwau ymlaen ac felly bydd is-etholiad am un sedd yn Ward Llanenddwyn yn cael ei gynnal ar y 17eg o Fawrth. Cytunwyd byddai y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Catrin Williams i weld a fyddai yn fodlon dod yn nol i'r Cyngor i gyfieithu.

### **G Agor Tenderau Torri Gwair**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn dwy dender i mewn i wneud y gwaith uchod. Ar ol trafodaeth cytunwyd bod West Coast Properties yn cael tender 1 (mynwentydd) a tender 3 (parciau chwarae) a bod Eurig Hughes a Rob Carter yn cael tender 2 (llwybrau cyhoeddus) a tender 4 (amrywiol lefydd o amgylch y pentref)

### **H Cyfarfod Un Llais Cymru - Dolgellau 24.2. 16**

Am bod y Cadeirydd yn absenol nid oedd posib cael adroddiad o'r cyfarfod uchod tan mis nesa.

## **3.10 GOHEBIAETH**

### **A Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd**

Wedi derbyn ateb gan yr uchod ynglyn a mater a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ynglyn ar ffaith bod y gwaith o dorri y gordyfiant ger Bron Eirian byth wedi cymeryd lle ag yn datgan mae cyfrifoldeb y perchennog yr eiddo yw torri y gordyfiant dan sylw a bod yr Arolygwr wedi bod mewn cysylltiad ar perchennog yn nol yn mis Tachwedd. Byddant yn nawr yn trefnu i'r Adran Gorfodaeth anfon llythyr gorfodaeth at y perchennog i roi 28 diwrnod iddo i wneud y gwaith neu bydd y Cyngor yn gwneud y gwaith ac adennill y costau gan y perchennog. Hefyd byddant yn trefnu i'r Arolygwr ail asesu'r sefyllfa.

### **3.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £ 11,936.53 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.20 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,537.32 yn y cyfrif wrth gefn a £33.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + £174.41 costau = £321.41  
Mr. M. J. Kerr - £380.00 - agor bedd y diweddar Ms Julie Denise Smedley  
Mr. Gary Martayn - £446.42 - trwsio rhan o llawr ystafell bwyllgor

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Glyn Rees a'i Fab - £560.00 - claddu y diweddar Ms Julie Denise Smedley

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

CFFI Meirionnydd - £225.00  
Roc Ardudwy - £275.00

**3.12 UNRHYW FATER ARALL**

Datganwyd pryder bod un o'r pileri cerrig ar waelod ffordd Gors y Gedol wedi cael ei ddifrodi a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynglyn a hyn.

Eisiau ysgrifennu at y Parc Cenedlaethol yn datgan pryder bod llwybr Bwlch y Rhwygyr wedi diriwio yn enwedig i fyny o Egryn am Sylfaen.

Adroddwyd bod un o'r llwybrau yn y fynwent gyhoeddus angen sylw a cytunodd yr Is-Gadeirydd ar Cyng. Emrys Jones gael golwg arno.

Cytunodd y Cyng. Eryl Jones Williams, John Ceri Evans, John Ellis Williams, Edward Griffiths ac Edward Williams fynychu cyfarfod yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog ar yr 8ed o'r mis gyda Anwen Davies o Gyngor Gwynedd i drafod y diweddaraf gyda Her Gwynedd.

**ARWYDDWYD.....Cadeirydd**

**DYDDIAD.....**